# Holiadur Amgylchedd yr Ysgol (SEQ) 2024

## Gwybodaeth ac Arweiniad i Arweinwyr Arolygon Ysgol

## LAWRLWYTHWCH A/NEU ARGRAFFU'R DDOGFEN HON AT Y DYFODOL

**Pwrpas Holiadur Amgylchedd yr Ysgol**

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn yr holiadur yn cael ei defnyddio i:

1. Gefnogi ymchwil i wahanol agweddau o amgylchedd yr ysgol a sut mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar iechyd a lles myfyrwyr.
2. Darparu data monitro i rhaglen Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles leol (Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru gynt).

Bydd yr atebion a ddarparwch yn cael eu rhannu gyda Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru mewn ffurflen heb fod yn ddienw, i gefnogi cynllunio, monitro a datblygu Cynlluniau Ysgolion Iach lleol a'r rhwydwaith cenedlaethol. Mae'n bwysig bod y Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach a'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach yn cydweithio'n effeithiol ac effeithlon er mwyn hyrwyddo iechyd a lles ysgolion yng Nghymru. Bydd rhannu data holiadur amgylchedd yr ysgol fel hyn yn lleihau dyblygiad yr ymdrech a'r baich ar ysgolion oherwydd golyga na fydd angen i'r Rhwydwaith gasglu mwy o ddata er mwyn bodloni ei anghenion gwybodaeth. Bydd y Rhwydwaith yn cadw'r wybodaeth a ddarparwch am eich ysgol yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw ddata sy'n gallu cael ei gysylltu ag ysgol unigol yn cael ei gyhoeddi ar unrhyw gyfrif.

**Fformat yr holiadur**

Bydd yr holiadur ar gael trwy ddolen ar-lein a anfonwyd gan Tîm Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) rhwng 16 Medi i 20 Rhagfyr 2024. Mae saith adran i'r holiadur, gyda'r rhain yn amrywio o rhwng chwech a 21 cwestiwn.

**Llenwi'r Holiadur**

Mae yna un holiadur i bob ysgol a ddylai gael ei lenwi gan aelod o'r uwch dîm rheoli, neu dylai aelod o'r uwch dîm rheoli adolygu'r ymatebion cyn cyflwyno'r holiadur. Efallai bydd angen cynghori ag aelodau eraill o staff er mwyn ateb pob cwestiwn.

Gellir llenwi'r holiadur ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar a gellir mynd ato droeon, felly nid oes rhaid ei ateb ar un cynnig.

Gallwch lenwi'r holiadur yn y Gymraeg neu'r Saesneg, trwy ddewis eich iaith o ddewis ar yr hafan dudalen.

Atebwch bob cwestiwn ym mhob adran a rhoi ateb ysgrifenedig lle y gofynnir am hynny. Os hoffech ddadwneud tic mewn opsiwn, pwyswch y botwm 'ailosod' isod.

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r holiadur hyd nes bod ymateb i bob cwestiwn, ond mae opsiwn ateb 'Ddim yn berthnasol' a/neu 'Ddim yn gwybod' i bob cwestiwn. Defnyddiwch 'Ddim yn berthnasol' os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch ysgol neu os nad yw opsiynau'r ymateb yn disgrifio'r amgylchiadau yn eich ysgol.

Os byddwch eisiau symud yn ôl, defnyddiwch y botwm 'Yn ol' ar waelod pob tudalen. Os byddwch chi ran o'r ffordd trwy adran ond rydych eisiau dychwelyd i dudalen neu ddewislen neu adael yr holiadur, cliciwch fotwm

**'Cadw ymatebion'**. Bydd hyn yn arbed unrhyw atebion a roesoch ar y dudalen honno. I ddychwelyd i dudalen y ddewislen ar unwaith neu rywbryd eto, defnyddiwch y ddolen i'ch holiadur yn yr e-bost gan SHRN.

**Rhannu'r holiadur gyda chydweithwyr**

Gallwch rannu'r ddolen i'ch holiadur gyda chydweithwyr os ydych eisiau eu help i ateb cwestiynau penodol. Sicrhewch fod yr holiadur yn cael ei gadw os bydd rhywun arall yn cwblhau adran.

Rhowch y ddogfen hon i unrhyw gydweithiwr rydych chi'n rhannu'r ddolen gydag ef/hi. Gallwch fynd at y ddogfen hon yma: https://www.shrn.org.uk/cy/holiadur-amgylchedd-ysgol/

**Cyflwyno'ch holiadur**

Unwaith y bydd yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn, sicrhewch eich bod yn pwyso'r botwm 'Cyflwynwch' ar y dudalen derfynol. Pan fyddwch wedi clicio'r botwm hwn, bydd eich atebion yn cael eu cyflwyno a'ch holiadur yn cael ei gau.

**Defnyddio'r pdf**

Rydym wedi rhoi copi o'r holiadur i chi ar ffurf pdf, fel y gallwch weld cynnwys yr holiadur cyn i chi ddechrau. Diben hyn yw eich cynorthwyo i amlygu oddi wrth ba gydweithwyr y bydd angen cymorth arnoch i'w lenwi. Hefyd, gallwch ddefnyddio copi print o'r pdf i gasglu gwybodaeth gan gydweithwyr os nad ydych am rannu'r ddolen i'ch holiadur.

**Peidiwch â defnyddio copi print o'r pdf i ddychwelyd eich holiadur i ni.**
**Gall data gael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r fersiwn ar-lein yn unig.**

Mae rhai ysgolion yn hoffi cadw copi o'u hymatebion i Holiadur Amgylchedd yr Ysgol at ddiben hunanwerthuso ac i ategu'u gweithredoedd Ysgolion Iach. Os hoffech wneud hyn, gwnewch gofnod gan ddefnyddio copi print o'r pdf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os cewch unrhyw anawsterau technegol gyda'r holiadur ar-lein, cysylltwch: primaryshrn@caerdydd.ac.uk

Cyflwynwch eich holiadur erbyn **5yp Dydd Gwener 20 Rhagfyr**.

***Diolch yn fawr.***

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

# Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

## HOLIADUR AMGYLCHEDD YSGOL (SEQ) 2024

**Cyflwynir SEQ ar-lein yn unig: dyma gopi o'r cwestiynau a ofynnwyd**

*Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg hwn. Defnyddir yr wybodaeth a ddarperir gennych yn yr holiadur hwn i gefnogi ymchwil i wahanol agweddau ar amgylchedd yr ysgol a sut maent yn dylanwadu ar iechyd a llesiant dysgwyr. Y tîm ymchwil yn unig fydd yn edrych ar eich atebion.*

Darllenwch bob un o'r brawddegau isod a thiciwch bob blwch i ddangos eich bod wedi darllen, deall a chytuno â nhw:

| | |
|---|---|
| | Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn yr Holiadur Amgylchedd Ysgol hwn ar ran fy ysgol. |
| | Rwyf wedi darllen a deall y daflen wybodaeth (a ddarperir trwy e-bost) |
| | Rwy'n gwybod beth yw pwrpas yr ymchwil ac nad oes yn rhaid i mi gymryd rhan nac ateb unrhyw gwestiynau nad wyf am eu gwneud. |
| | Rwy'n deall y gallaf roi'r gorau i gymryd rhan ar unrhyw adeg yn ystod yr holiadur ac y gallaf dynnu data'r holiadur a gyflwynwyd hyd at 20 Rhagfyr 2023 yn ôl, heb roi unrhyw reswm |
| | Rwy'n deall y bydd y data o'r ymchwil hwn yn cael eu casglu ynghyd a'u defnyddio ar gyfer adroddiadau ymchwil, cyhoeddiadau a chyflwyniadau. |

Cyflwynir SEQ ar-lein yn unig: dyma gopi o'r cwestiynau a ofynnwyd

## 1) CWESTIYNAU CYFFREDINOL AMDANOCH CHI A'CH YSGOL

**C1** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich rôl broffesiynol bresennol o fewn yr uwch dîm rheoli/uwch dîm arwain?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Pennaeth / Pennaeth dros dro
- ☐ Dirprwy bennaeth
- ☐ Pennaeth cynorthwyol
- ☐ Pennaeth blwyddyn
- ☐ Arweinydd iechyd a lles
- ☐ Aelod arall o'r uwch dîm rheoli (RHOWCH FANYLION ISOD)
  ......................................................................................................

**C2** Ym mlynyddoedd ysgol 2022/23 a 2023/24, ar ba rai o'r meysydd canlynol y canolbwyntiodd yr Uwch Dîm Rheoli / Uwch Dîm Arwain eu hymdrechion er mwyn sicrhau gwelliannau?

**DEWISWCH HYD AT *BEDWAR* MAES BLAENORIAETH YN UNIG**

- ☐ Iechyd a lles staff
- ☐ Perthnasoedd staff â dysgwyr
- ☐ Iechyd corfforol dysgwyr
- ☐ Lles emosiynol a meddyliol dysgwyr
- ☐ Cyrhaeddiad addysgol dysgwyr
- ☐ Adroddiad Estyn a chategoreiddio
- ☐ Cyflwr adeiladau'r ysgol a'r tir o'i chwmpas
- ☐ Darparu gweithgareddau allgyrsiol
- ☐ Perthynas eich ysgol â rhieni a gofalwyr
- ☐ Perthynas eich ysgol â'r gymuned leol

**C3** A oes gan eich ysgol <u>un</u> arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles dysgwyr?
**DEWISWCH UN OPSIWN YN UNIG**

- ☐ Oes (Ewch i C3a)
- ☐ Nac oes (Ewch i C4)
- ☐ Ddim yn gwybod (Ewch i C4)

**C3a** Beth yw rôl broffesiynol yr arweinydd iechyd a lles dysgwyr?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Pennaeth / Pennaeth dros dro
- ☐ Dirprwy bennaeth
- ☐ Pennaeth cynorthwyol
- ☐ Pennaeth cyfnod
- ☐ Pennaeth blwyddyn
- ☐ Pennaeth adran
- ☐ Athro dosbarth / Athrawes ddosbarth
- ☐ Nyrs Ysgol
- ☐ Arall (RHOWCH FANYLION ISOD)

✍ ______________________

**C4** A yw eich ysgol yn aelod o'i rhaglen Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles leol (Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru gynt)?
**DEWISWCH UN OPSIWN YN UNIG**

- ☐ Ydy (Ewch i C 5a6)
- ☐ Nac ydy (Ewch i C7)
- ☐ Ddim yn berthnasol (Ewch i C7)

| C5 | Pa rai o weithgareddau canlynol y rhaglen Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles sydd wedi digwydd yn ystod blynyddoedd ysgol 2022/23 a 2023/24? **DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL** | |
|---|---|---|
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi cael cyngor ac arweiniad penodol i bwnc gan y tîm Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles lleol |
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi cwblhau hunanwerthusiad, archwiliad neu adolygiad |
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi datblygu cynllun gweithredu |
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi manteisio ar hyfforddiant trwy ei thîm Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles lleol |
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi cymryd rhan mewn mentrau iechyd a lles lleol neu genedlaethol i gefnogi ei blaenoriaethau iechyd a lles |
| | ☐ | Mae’r ysgol wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydwaith neu gyfarfodydd clwstwr wedi’u trefnu gan ei thîm Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles lleol |
| | ☐ | Mae’r tîm Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles lleol wedi cyfeirio’r ysgol at adnoddau arbenigol pellach i gefnogi’i blaenoriaethau iechyd a lles |
| | ☐ | Dim un o’r uchod |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |

**C6** Pa mor bwysig yw aelodaeth o’ch tîm Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles lleol i waith iechyd a lles eich ysgol?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

| Nid yw’n bwysig iawn | | | | **Mae’n bwysig iawn** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C7** I gefnogi cynlluniau gweithredu neu dargedau iechyd a lles yr ysgol, a oes gan eich ysgol unrhyw rai o’r canlynol?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

☐ Cynllun gweithredu iechyd a lles ysgrifenedig **(EWCH I C8)**

☐ Targedau iechyd a lles ysgrifenedig **(EWCH I C8)**

☐ Ethos ac egwyddorion cytunedig yr ysgol **(EWCH I C11)**

☐ Dim un o’r rhain **(EWCH I C11)**

**C8** A yw eich cynllun gweithredu neu dargedau yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu presennol yr Ysgol?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Ydyn
- ☐ Nac ydyn
- ☐ Ddim yn berthnasol

**C9** A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu neu dargedau sy'n cynnwys ymrwymiad i welliannau yn unrhyw un o'r pynciau canlynol?

**DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL**

- ☐ Defnydd o dybaco
- ☐ Lles emosiynol a meddyliol
- ☐ Bwyd a maeth
- ☐ Gweithgarwch corfforol
- ☐ Defnyddio’r ffôn a diogelwch ar y rhyngrwyd
- ☐ Chwarae
- ☐ Datblygiad personol a pherthnasoedd
- ☐ Hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymddygiad amgylcheddol
- ☐ Atal bwlio
- ☐ Teithio llesol
- ☐ Fepio
- ☐ Arall

**C10** A yw’r Uwch Dîm Rheoli / Uwch Dîm Arwain yn gwneud asesiad ffurfiol o gynnydd o’i gymharu â’r cynllun gweithredu neu’r targedau?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Ydy, o leiaf bob blwyddyn
- ☐ Ydy, yn llai na bob blwyddyn
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn gwybod

**C11** Pa rai o'r ffynonellau data iechyd a lles canlynol y mae eich ysgol yn eu defnyddio i ddiweddaru ei pholisïau a'i harferion ar greu ysgol iach?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Ein harolygon dysgwyr ein hunain
- ☐ Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
- ☐ Arolwg PASS
- ☐ Arolwg dysgwyr Estyn
- ☐ Arolygon dysgwyr allanol eraill
- ☐ Ein harolygon staff ein hunain
- ☐ Ein harolygon ni i rieni / gofalwyr
- ☐ Arolwg Chwaraeon Ysgol
- ☐ Data'r awdurdod lleol
- ☐ Data'r ysgol a gesglir yn rheolaidd
- ☐ Arall **(RHOWCH FANYLION ISOD)**
- ☐ Nid yw ein hysgol yn defnyddio data yn y modd hwn **(EWCH I C14)**

**C12** Pwy sy'n defnyddio'r data iechyd a lles?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Yr uwch dîm rheoli / arwain
- ☐ Timau lles / gofal bugeiliol
- ☐ Y cyngor ysgol neu grwpiau eraill llais y dysgwr
- ☐ Llywodraethwyr yr ysgol
- ☐ Athrawon dosbarth
- ☐ Cydlynydd yr ysgol sy'n hyrwyddo iechyd a lles (yn yr ysgol)
- ☐ Y clwstwr ysgolion
- ☐ Cymunedau dysgu proffesiynol
- ☐ Fforymau Rhieni / Gofalwyr
- ☐ Pennaeth rhithwir
- ☐ Arall
- ☐ Dim un o'r uchod

**C13** Sut mae eich ysgol yn defnyddio’r data iechyd a lles?
**DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL**

- ☐ Nodi angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles
- ☐ Mesur effaith ein gwaith o ran creu ysgol iach
- ☐ Edrych ar sut mae iechyd a lles yn ein hysgol yn cymharu ag ysgolion lleol eraill neu ysgolion sy’n rhan o’n teulu
- ☐ Datblygu ein cwricwlwm
- ☐ Deall anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr
- ☐ Er mwyn llywio ein gwaith clwstwr (e.e. clystyrau cynradd ac uwchradd)
- ☐ Cyfleu ein blaenoriaethau gyda chymuned yr ysgol
- ☐ Darparu tystiolaeth i randdeiliaid allweddol (e.e. llywodraethwyr) ar feysydd lle mae angen newid
- ☐ Ategu ein gwaith gwella ysgol
- ☐ Dim un o’r uchod

**C14** A yw eich ysgol yn defnyddio dull ynysu i reoli ymddygiad dysgwyr?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

**C15** Pa mor aml y mae eich ysgol yn defnyddio'r arferion adferol canlynol yn eich ymagwedd at ddisgyblaeth dysgwyr?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | Byth | Anaml | Weithiau | Aml (yn wythnosol, o leiaf) | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Amser cylch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynhadledd adferol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfryngu rhwng cyfoedion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arferion adferol eraill (Ewch i C16 os cânt eu defnyddio) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C16** Pa arferion adferol eraill ydych chi'n eu defnyddio?

Os nad ydych yn gwybod, gadewch yr adran hon yn wag.

**NODWCH ISOD**

✍

**C17** A ydych chi wedi cyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol yn eich ysgol ar gyfer y grwpiau blwyddyn canlynol?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | Ydym | Ddim eto | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Dosbarth Derbyn | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 1 | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 2 | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 3 | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 4 | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 5 | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ | ☐ | ☐ |

**C18** Ym mha flwyddyn academaidd gwnaethoch chi gyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol ar gyfer y grwpiau blwyddyn canlynol?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth Derbyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 1 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 2 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 3 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 4 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 5 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C19** Ym mha dymor academaidd gwnaethoch chi gyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol ar gyfer y grwpiau blwyddyn canlynol?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | Hydref | Gwanwyn | Haf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Dosbarth Derbyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 1 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 2 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 3 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 4 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 5 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C20** Pa weithgareddau mae eich ysgol yn ymgymryd â nhw i gefnogi pontio Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

☐ Cefnogi ymweliadau disgyblion â'r ysgol uwchradd

☐ Rhannu data ar ddysgwyr Blwyddyn 6 gydag arweinwyr clwstwr ysgolion uwchradd

☐ Disgyblion uwchradd yn ymweld â'n hysgol gynradd

☐ Staff uwchradd yn ymweld â'n hysgol gynradd

☐ Cynnal digwyddiadau ar y cyd â'r ysgol uwchradd leol

☐ Dim un o'r uchod

**C21** Pa weithgareddau mae eich ysgol yn ymgymryd â nhw i gefnogi pontio Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd ar gyfer dysgwyr ag **anghenion dysgu ychwanegol**?

**Os nad ydych yn gwybod, gadewch yr adran hon yn wag.**

**NODWCH ISOD**

✍

## 2) SUT MAE DYSGWYR, RHIENI/GOFALWYR A'R GYMUNED YN CYMRYD RHAN MEWN IECHYD A LLES

**C22** Ym mha feysydd y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch iechyd a lles yn eich ysgol?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Nodi meysydd blaenoriaeth
- ☐ Cynllunio gweithredu
- ☐ Datblygu a chyflawni camau gweithredu/mentrau
- ☐ Adolygu cynnydd/gwerthuso camau gweithredu a mentrau
- ☐ Datblygu polisi
- ☐ Arall
- ☐ Nid yw dysgwyr yn cymryd rhan yn y penderfyniadau hyn
- ☐ Ddim yn gwybod

**C23** Sawl gwaith y flwyddyn y mae eich Cyngor Ysgol neu gorff tebyg dan arweiniad dysgwyr yn cyfarfod?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Llai na 6 gwaith
- ☐ 6 gwaith
- ☐ Mwy na 6 gwaith
- ☐ Nid oes gennym Gyngor Ysgol na chorff tebyg

**C24** Pa bynciau iechyd a lles y mae eich grwpiau llais y dysgwr wedi gweithio arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

| | |
|---|---|
| ☐ Bwyd a maeth | ☐ Newid hinsawdd |
| ☐ Gweithgarwch corfforol | ☐ Fepio |
| ☐ Ysmygu | ☐ Arall **(RHOWCH FANYLION ISOD)** |
| ☐ Bwlio | ✍ |
| ☐ Lles emosiynol a meddyliol | |
| ☐ Defnyddio'r ffôn a diogelwch ar y rhyngrwyd | ☐ Ddim yn gwybod |
| ☐ Teithio llesol | |
| ☐ Iechyd teulu a chymuned | |

| **C25** | A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu **ymgysylltu â theuluoedd** ysgrifenedig neu dargedau ymgysylltu â theuluoedd wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Datblygu Ysgol presennol?<br>**DEWISWCH Y DATGANIAD SY'N DISGRIFIO ORAU EICH YSGOL** | |
|---|---|---|
| | ☐ | Na, nid oes gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig na thargedau |
| | ☐ | Oes, mae gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau yn unig |
| | ☐ | Oes, mae gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Datblygu Ysgol |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |
| | ☐ | Ddim yn berthnasol |

| **C26** | A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu **ymgysylltu cymunedol** ysgrifenedig neu dargedau ymgysylltu cymunedol wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Datblygu Ysgol presennol?<br>**DEWISWCH Y DATGANIAD SY'N DISGRIFIO ORAU EICH YSGOL** | |
|---|---|---|
| | ☐ | Na, nid oes gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig na thargedau |
| | ☐ | Oes, mae gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau yn unig |
| | ☐ | Oes, mae gan ein hysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Datblygu Ysgol |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |
| | ☐ | Ddim yn berthnasol |

**C27** Ym mha feysydd y mae rhieni a gofalwyr yn <u>cymryd rhan</u> mewn penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles yn eich ysgol?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Nodi meysydd blaenoriaeth iechyd
- ☐ Y cwricwlwm iechyd a lles
- ☐ Polisi iechyd yr ysgol
- ☐ Iechyd teulu a chymuned
- ☐ Cyfleusterau'r ysgol
- ☐ Amgylchedd yr ysgol
- ☐ Arall
- ☐ Nid yw rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan yn y penderfyniadau hyn **(EWCH I C29)**

**C28** Ym mha ffyrdd y mae rhieni a gofalwyr yn <u>cymryd rhan</u> mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
- ☐ Arolygon
- ☐ Fforymau
- ☐ Nosweithiau gwybodaeth i rieni/gofalwyr
- ☐ Fel rhiant/gofalwr-lywodraethwyr
- ☐ Rhieni/gofalwyr wedi cychwyn cyswllt ar faterion iechyd
- ☐ Arall

**C29** Ym mha ffyrdd y mae rhieni a gofalwyr yn <u>cael eu hysbysu</u> am benderfyniadau gwella iechyd a lles?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
- ☐ Cyfarfodydd un-i-un gyda rhieni/gofalwyr
- ☐ Nosweithiau gwybodaeth i rieni/gofalwyr
- ☐ Gwefan
- ☐ Ap neu gyfwerth i rieni
- ☐ Llythyron adref
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Trwy riant-lywodraethwyr
- ☐ Nid yw penderfyniadau'n cael eu rhannu
- ☐ Arall

**C30** Pa rai o'r canlynol y mae eich ysgol wedi'u gwneud i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth staff o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Hyfforddiant i'r holl staff
- ☐ Hyfforddiant i rai staff
- ☐ Datblygu polisïau sy'n ymwneud â hawliau plant
- ☐ Darparu canllawiau
- ☐ Wedi'i hachredu fel ysgol sy'n parchu hawliau
- ☐ Dim un o'r uchod
- ☐ Arall

**C31** I ba raddau y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi llywio ymagwedd eich ysgol at y canlynol?
**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | 1 **Dim o gwbl** | 2 | 3 | 4 | 5 **I raddau helaeth** |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysgu a dysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agweddau eraill ar bolisi ac arfer yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llais y dysgwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C32** Pa gyfleusterau yn eich ysgol sydd ar gael i grwpiau yn y gymuned leol eu defnyddio, a phryd?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL AR BOB RHES**

| | Gyda'r nos | Ar y penwythnos | Yn ystod gwyliau ysgol | Ddim ar gael | Nid oes gan yr ysgol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau chwaraeon / chwarae awyr agored | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfleusterau chwaraeon / chwarae dan do | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfleusterau arlwyo/ bwyta | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafelloedd dosbarth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfleusterau eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C33** A oes gan eich ysgol bartneriaethau* gydag unrhyw un o'r unigolion neu'r grwpiau canlynol i helpu gwella iechyd a lles dysgwyr?

**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Ysgolion eraill
- ☐ Clybiau chwaraeon proffesiynol
- ☐ Clybiau chwaraeon lleol
- ☐ Swyddogion datblygu chwaraeon (o sefydliadau cenedlaethol neu ranbarthol neu'r Awdurdod Lleol)
- ☐ Sefydliadau ffydd
- ☐ Sefydliadau neu fusnesau yn y sector preifat
- ☐ Timau iechyd cyhoeddus lleol e.e. y tîm Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles
- ☐ Sefydliadau / elusennau cenedlaethol y trydydd sector, e.e. Barnardo's, Brook, Alcohol Concern, Pet therapy
- ☐ Sefydliadau / elusennau rhanbarthol y trydydd sector
- ☐ Sefydliadau / elusennau lleol y trydydd sector
- ☐ Gweithwyr iechyd proffesiynol heblaw'r tîm Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles, e.e. iechyd plant, nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu
- ☐ Gweithwyr Ieuenctid (statudol neu anstatudol)
- ☐ Yr heddlu / Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- ☐ Mewngymorth CAMHS
- ☐ Arall

**Ystyr partneriaethau yw unrhyw berthynas ffurfiol neu anffurfiol sy'n bodoli am gyfnod neu drwy'r amser ac sydd, yn achos awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn mynd y tu hwnt i ofynion statudol.*

## 3) ADDYSG IECHYD A LLES

**C34** Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, ar gyfartaledd, faint o gyfle am weithgarwch corfforol sy'n cael ei gynnwys yn yr amserlen yn wythnosol o fewn y cwricwlwm ffurfiol?

*Nodwch yr ateb mewn munudau e.e. 45.*

| | Munudau fesul wythnos | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 4 | | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 5 | | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | | ☐ | ☐ |

**C35** Pwy sy'n gyfrifol am **gydlynu** addysg cydberthynas a rhywioldeb (RSE) yn yr ysgol?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Pennaeth / Pennaeth dros dro
- ☐ Dirprwy bennaeth
- ☐ Pennaeth cynorthwyol
- ☐ Staff addysgu eraill
- ☐ Staff bugeiliol
- ☐ Nyrs Ysgol
- ☐ Arweinydd iechyd a lles
- ☐ Arall
- ☐ Nid oes un unigolyn yn unig yn cydlynu RSE
- ☐ Ddim yn berthnasol

**C36** Sut mae dysgwyr yn cael gafael ar gynhyrchion mislif am ddim yn eich ysgol?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ O'r dderbynfa
- ☐ O'r swyddfa lles/nyrs
- ☐ Gan athro
- ☐ O'r toiledau
- ☐ Gan y swyddog cynhwysiant teuluoedd
- ☐ O'r ystafell gymunedol, neu debyg
- ☐ Arall (RHOWCH FANYLION ISOD) ✍
- ☐ Nid ydym yn darparu cynhyrchion mislif am ddim

## 4) GWEITHGAREDD CORFFOROL A THEITHIO LLESOL

**C37** Ar gyfartaledd, sawl diwrnod yr wythnos mae eich ysgol yn cynnig chwaraeon allgyrsiol neu weithgaredd corfforol strwythuredig arall dan arweiniad staff, gwirfoddolwyr, dysgwyr eraill, e.e. clwb pêl-droed, clwb dawns?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES AR GYFER TYMOR YR HYDREF AC WEDYN TYMOR YR HAF**

| **Tymor yr hydref** | 0 diwrnod | 1-2 ddiwrnod | 3-4 diwrnod | 5 diwrnod | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| **Tymor yr haf** | 0 diwrnod | 1-2 ddiwrnod | 3-4 diwrnod | 5 diwrnod | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C38** Pwy sy’n darparu gweithgaredd corfforol a chwaraeon allgyrsiol yn eich ysgol?

**DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL**

- ☐ Athrawon Addysg Gorfforol
- ☐ Hyfforddwyr dan gontract allanol
- ☐ Staff eraill yr ysgol
- ☐ Staff awdurdod lleol neu staff chwaraeon cymunedol, e.e. swyddog 5x60
- ☐ Rhieni/gofalwyr
- ☐ Athrawon dosbarth
- ☐ Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru
- ☐ Arall
- ☐ Gwirfoddolwyr eraill
- ☐ Nid oes gan yr ysgol chwaraeon allgyrsiol

**C39** Pa grwpiau o ddysgwyr sy'n derbyn addysg ar fanteision iechyd gweithgaredd corfforol (heblaw yn ystod addysg gorfforol) o fewn y cwricwlwm newydd?

**DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL**

- ☐ Dosbarth Meithrin
- ☐ Blwyddyn 4

- ☐ Dosbarth Derbyn
- ☐ Blwyddyn 1
- ☐ Blwyddyn 2
- ☐ Blwyddyn 3
- ☐ Blwyddyn 5
- ☐ Blwyddyn 6
- ☐ Dim un o’r rhain
- ☐ Ddim yn gwybod

**C40** Sawl Llysgennad Ifanc Chwaraeon Cymru sydd gan eich ysgol ar hyn o bryd?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Nid yw fy ysgol yn rhan o gynllun Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru
- ☐ 0 (Wedi ymuno â’r cynllun, ond heb recriwtio Llysgenhadon eto)
- ☐ 1
- ☐ 2
- ☐ 3
- ☐ 4
- ☐ 5 neu fwy
- ☐ Ddim yn gwybod

**C41** A yw eich ysgol yn monitro pwysau corff dysgwyr?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Ydy **[EWCH I C42)**
- ☐ Nac ydy **[EWCH I C43)**
- ☐ Ddim yn gwybod **[EWCH I C43)**

**C42** Pa gamau ydych chi'n eu cymryd ar ôl nodi pryderon?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Trafod y mater gyda rhieni/gofalwyr dysgwyr yn unigol
- ☐ Darparu cyngor neu daflen i rieni/gofalwyr
- ☐ Cyfeirio'r dysgwr at y nyrs ysgol
- ☐ Gweithredu rhaglen(ni) sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i wella'r mater iechyd a lles
- ☐ Ymgynghori â dysgwyr ar sut i wella iechyd a lles
- ☐ Camau gweithredu eraill
- ☐ Dim camau gweithredu

**C43** A yw eich ysgol yn hyrwyddo teithio llesol mewn unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Nodi a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio diogel
- ☐ Storfa i feiciau a sgwteri
- ☐ Hybu helmedau ar gyfer beicwyr
- ☐ Ymgyrchoedd cerdded, e.e. 'Wythnos Cerdded i'r Ysgol'
- ☐ Hyfforddiant medrusrwydd beicio
- ☐ Mynedfeydd i gerddwyr/beicwyr
- ☐ Cydweithio â'r heddlu/Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i roi sylw i ddiogelwch cymunedol/trafnidiaeth
- ☐ Arall
- ☐ Dim un o'r uchod

**C44** A yw eich ysgol:

**DEWISWCH UN BLWCH YM MHOB RHES**

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Yn monitro nifer y dysgwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol? | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn gosod targedau er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol? | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn annog gweithgaredd corfforol drwy ddulliau dysgu gweithredol (e.e. dysgu yn yr awyr agored) | ☐ | ☐ | ☐ |

## 5) BWYTA'N IACH

**C45** A yw eich ysgol yn gwneud unrhyw rai o'r canlynol i hyrwyddo bwyta'n iach?
**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

- ☐ Monitro a gosod targedau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- ☐ Tynnu sylw at y dewisiadau iachach yn ffreutur yr ysgol
- ☐ Sicrhau bod opsiynau iachach yn cael eu gosod mewn safle clir i'r holl ddysgwyr yn ystod amser cinio
- ☐ Cyfyngu bwydydd uchel mewn braster dirlawn, siwgr neu halen i ddathliadau neu wobrau
- ☐ Annog dewisiadau iachach trwy ddulliau eraill
- ☐ Ymgysylltu â phroses 'Tystysgrif Cydymffurfio' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer y rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (neu broses debyg)
- ☐ Addysgu maeth fel rhan o'r cwricwlwm
- ☐ Dim un o'r uchod

☐ Ddim yn gwybod

**C46** A yw eich ysgol neu unrhyw sefydliad arall yn darparu unrhyw raglenni allgyrsiol i **ddysgwyr** ddysgu am fwyd a bwyta'n iach, e.e. clybiau coginio?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy, yn rheolaidd

☐ Ydy, digwyddiadau ad hoc neu un-tro'n unig

☐ Nac ydy

**C47** A yw eich ysgol neu unrhyw sefydliad arall yn darparu unrhyw raglenni allgyrsiol i **rieni/gofalwyr** ddysgu am fwyd a bwyta'n iach, e.e. clybiau coginio?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy, yn rheolaidd

☐ Ydy, digwyddiadau ad hoc neu un-tro'n unig

☐ Nac ydy

**C48** A yw eich ysgol yn cynnig clwb brecwast cyn cychwyn sesiwn fore'r ysgol?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy, i bob dysgwr drwy gydol y flwyddyn

☐ Ydy, i rai dysgwr a/neu ar adegau penodol o'r flwyddyn

☐ Nac ydy

☐ Ddim yn gwybod

**C49** Faint o amser y mae dysgwyr yn ei gael amser cinio yn eich ysgol?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Llai na 30 munud

☐ 30 neu 35 munud

☐ 50 neu 55 munud

☐ 60 munud neu fwy

☐ 40 neu 45 munud

**C50** A oes gan eich ysgol bolisi sy'n cynnwys bwyta'n iach?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Oes **(EWCH I C51)**

☐ Yn cael ei ddatblyg**u** **(EWCH I C53)**

☐ Nac oes **(EWCH I C53)**

**C51** A yw polisi eich ysgol ar fwyta'n iach yn cynnwys canllawiau neu ofynion o ran y mathau o fwydydd a diodydd y gall dysgwyr ddod â nhw i'r ysgol, e.e. mewn cinio parod?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy, canllawiau **(EWCH I C52)**

☐ Ydy, gofynion **(EWCH I C52)**

☐ Nac ydy **(EWCH I C53)**

**C52** A yw hyn yn cynnwys bwyd ar gyfer tripiau ysgol?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydy

☐ Nac ydy

☐ Ddim yn gwybod

## 6) IECHYD MEDDWL A LLES

**C53** A oes gan eich ysgol bolisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys y canlynol?
**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | Oes | Yn cael ei ddatblygu | Nac oes |
|---|---|---|---|
| Lles emosiynol a meddyliol | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hunan-niweidio | ☐ | ☐ | ☐ |
| Atal hunanladdiad | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bwyta mewn modd sy'n peri pryder | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cwestiynu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profedigaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Niwroamrywiaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio ffonau symudol | ☐ | ☐ | ☐ |

**C54** Faint o staff sydd wedi cael hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i effaith trawma adeg plentyndod e.e. cam-drin, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, rhieni yn y carchar?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Pob aelod o staff
- ☐ Y rhan fwyaf o'r staff
- ☐ Tua hanner y staff
- ☐ Llai na hanner y staff
- ☐ Dim un aelod o staff
- ☐ Ddim yn gwybod

**C55** A oes gan eich ysgol le annog/diogel pwrpasol i ddysgwyr?
**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

- ☐ Oes, ar gael i bob dysgwr, bob amser
- ☐ Oes, ar gael i bob dysgwr, ond ar amseroedd penodol
- ☐ Oes, ar gael i rai dysgwr, bob amser
- ☐ Oes, ar gael i rai dysgwr, ond ar amseroedd penodol
- ☐ Nac oes

| | |
|---|---|
| **C56** | A yw'r ysgol yn cynorthwyo staff i gael at gymorth lles emosiynol a meddyliol arbenigol (h.y. gwasanaeth cwnsela)?<br>**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**<br>☐ Ydy, ar y safle<br>☐ Ydy, oddi ar y safle<br>☐ Nac ydy<br>☐ Ddim yn gwybod |

| **C57** | A yw eich ysgol yn darparu unrhyw ymyriadau lles emosiynol a meddyliol i staff?<br>**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG** | |
|---|---|---|
| | ☐ | Nac ydy |
| | ☐ | Ydy **(RHOWCH FANYLION ISOD)**<br>✍ |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C58** | A yw eich ysgol yn cyflwyno unrhyw rai o'r ymyriadau lles emosiynol a meddyliol canlynol i ddysgwyr?<br><br>**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL** | | | |
| | ☐ | THRIVE | ☐ | Jigsaw |
| | ☐ | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) | ☐ | Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl |
| | ☐ | Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma (TIS) | ☐ | Arall **(RHOWCH FANYLION ISOD)**<br>✍ |
| | ☐ | Ymwybyddiaeth Ofalgar | ☐ | Ddim yn gwybod (**EWCH I C60)** |

| C59 | A gyflwynwyd yr ymyriadau hyn cyn y Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol?<br><br>**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG** | |
|---|---|---|
| | ☐ | Do, y cyfan |
| | ☐ | Do, rhai |
| | ☐ | Naddo |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |

**C60** A oes gennych berson wedi'i enwi yn eich Rhaglen Mewngymorth Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallwch gysylltu â nhw am gymorth a chefnogaeth?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

**C61** Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, tua pha mor aml y mae eich ysgol wedi cyfathrebu â'ch Ymarferydd Mewngymorth CAMHS lleol?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Yn wythnosol (**EWCH I C62**)

☐ Yn bythefnosol (**EWCH I C62**)

☐ Yn fisol (**EWCH I C62**)

☐ Oddeutu unwaith bob hanner tymor (**EWCH I C62**)

☐ Oddeutu unwaith y tymor (**EWCH I C62**)

☐ Llai nag unwaith y tymor (**EWCH I C62**)

☐ Byth (**EWCH I C63**)

☐ Ddim yn gwybod (**EWCH I C63**)

**C62** Faint o atgyfeiriadau i'ch CAMHS lleol (naill ai'n uniongyrchol neu drwy eich Ymarferydd Mewngymorth CAMHS) am asesiadau ydych chi wedi'u gwneud yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2022/23 a 2023/24) ar gyfer dysgwyr unigol?

**DEWISWCH UN BLWCH YM MHOB RHES**

| | Ni all yr ysgol wneud atgyfeiriadau | Dim un | Un | Dau i bump | Chwech i ddeg | 11 neu fwy | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2023/24 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C63** I ba raddau ydych chi'n teimlo bod eich rhaglen Mewngymorth CAMHS lleol yn eich cefnogi chi?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

| Nid ydym ni'n cael unrhyw gymorth o gwbl 1 | 2 | 3 | 4 | Rydym ni'n cael llawer o gymorth 5 | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## 7) Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol

**Mae'r cwestiynau nesaf hyn yn ymwneud â Fframwaith Llywodraeth Cymru ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (y Fframwaith). Dylai'r adran hon gael ei chwblhau gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli / Arwain gyda chymorth y sawl sy'n gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith.**

| | |
|---|---|
| **C64** | A yw eich ysgol wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol? Nodwch y cam sydd agosaf at eich sefyllfa bresennol:<br>**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**<br>☐ Nid yw fy ysgol wedi dechrau cyflwyno Dull Ysgol Gyfan [Ewch i C67]<br>☐ Cwmpasu: Hunanwerthuso cryfderau ac anghenion yr ysgol [Ewch i C65]<br>☐ Cynllunio gweithredu: Creu cynllun gweithredu newydd neu ddatblygu cynllun gweithredu presennol i adeiladu ar gryfderau’r ysgol a mynd i’r afael â bylchau [Ewch i C65]<br>☐ Rhoi cynllun ar waith: Rhoi’r cynllun gweithredu ar waith [Ewch i C65]<br>☐ Gwerthuso: Adolygu effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith [Ewch i C65]<br>☐ Gwelliant parhaus: Defnyddio’r gwersi allweddol sydd wedi’u dysgu o’r gwerthuso i wella dull yr ysgol [Ewch i C65] |

| | | |
|---|---|---|
| **C65** | A ydych wedi cael cymorth yn ystod y broses hon gan unrhyw rai o’r canlynol?<br>**DEWISWCH BOB UN SY’N BERTHNASOL** | |
| | ☐ | Arweinydd Gweithredu Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru / Cydlynydd Ysgolion sy’n Hyrwyddo Iechyd a Lles |
| | ☐ | Awdurdod Lleol |
| | ☐ | Arall |
| | ☐ | Rydym wedi cwblhau’r broses hon heb gymorth allanol |
| | ☐ | Ddim yn gwybod |

**C66** Yn yr ysgol, i ba raddau mae'r grwpiau canlynol wedi chwarae rhan yn eich gwaith ar y Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol?

**DEWISWCH UN BLWCH AR BOB RHES**

| | Dim o gwbl | Wedi chwarae rhan fechan | Wedi chwarae rhywfaint o ran | Wedi chwarae cryn dipyn o ran | Wedi chwarae rhan fawr iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch dîm rheoli / arwain | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Staff addysgu eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Staff bugeiliol a chymorth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dysgwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Teuluoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y gymuned ehangach | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C67** A ydych yn disgwyl dechrau gweithredu'r Fframwaith yn y flwyddyn academaidd nesaf?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydyn [Ewch i C68]

☐ Nac ydyn

☐ Ddim yn gwybod

**C68** A ydych yn disgwyl cynnal hunanwerthusiad yn ystod y flwyddyn nesaf?

**DEWISWCH UN BLWCH YN UNIG**

☐ Ydyn [Ewch i C69]

☐ Nac ydyn

☐ Ddim yn gwybod

| | |
|---|---|
| **C69** | Gyda phwy ydych chi'n bwriadu gweithio ar hyn (os o gwbl)?<br>**DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**<br>☐ Arweinydd Gweithredu Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru / Cydlynydd Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles<br>☐ Awdurdod Lleol<br>☐ Arall<br>☐ Dim un o'r uchod<br>☐ Ddim yn gwybod |

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n pwyso botwm 'Cyflwyno' isod i gyflwyno eich ateb.**